Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

## Llunio dyfodol addysg ôl-16 yng Nghymru

**“Fy uchelgais yw datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gydlynus yng Nghymru sy’n hawdd i ddysgwyr lywio drwyddi, yn sicrhau’r gwerth cyhoeddus mwyaf, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i’r afael ag anghydraddolebau, ac yn seiliedig ar genhadaeth ddinesig.”**

**Kirsty Williams**
Y Gweinidog Addysg



# Rhagair

Fy uchelgais, drwy sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, yw datblygu system Addysg a Hyfforddiant ôl-Orfodol (AHO) mwy effeithiol, mwy effeithlon a mwy cydlynol yng Nghymru. Bydd sefydlu’r Comisiwn yn gam hollbwysig tuag at gyflawni’r nodau a amlinellwyd yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, ac yn benodol ein nod o greu Cymru uchelgeisiol sy’n dysgu.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r sector AHO wedi dod yn fwy amrywiol, ond hefyd yn fwy cymhleth, gan greu heriau newydd i ddysgwyr, darparwyr a llunwyr polisi. Mae’r heriau i’n heconomi a’r sector addysg yn sgil Covid-19 yn golygu bod yn rhaid i ni gydweithio mewn ffordd fwy strategol, gydlynol ac effeithlon i oruchwylio addysg drydyddol ac ymchwil, o dan nawdd un Comisiwn, sydd â swyddogaeth glir i greu system sy’n gweithio i bobl ac economi Cymru. Ni allwn fforddio gohirio’r broses ddiwygio hon am gyfnod amhenodol. Mae’r argyfwng presennol yn creu brys newydd i sicrhau cyfleoedd dysgu ac i feithrin sgiliau sy’n glir, yn gydlynol ac yn berthnasol, a hynny i bobl o bob oed. Rwy’n benderfynol o sicrhau nad yw Cymru’n cael ei gadael ar ôl o ran diwallu anghenion dinasyddion a chymdeithas yn yr 21ain ganrif.

Byddai’r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) arfaethedig wedi creu’r sylfeini ar gyfer dechrau mynd i’r afael â’r heriau hyn. Byddai wedi sefydlu corff strategol hyd braich newydd - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil - i oruchwylio cyllid a pherfformiad addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Yn sgil heriau Covid-19, rwyf wedi penderfynu, yn gyndyn iawn, i ohirio cyflwyno’r Bil. Er mwyn i ni allu datblygu cefnogaeth ar draws y pleidiau, a chefnogaeth ddinesig ehangach, ar gyfer y diwygiadau hyn rwyf wedi cyhoeddi fersiwn dDraffto’r Bil at ddibenion ymgynghori a byddwn yn croesawu sylwadau.

Mae’r Bil Drafft yn cynnig sefydlu Comisiwn fel corff annibynnol a noddir, ac rwy’n cynnig y gellir cyflawni hyn erbyn 2023. Bydd y Comisiwn yn tynnu ar fodelau rhyngwladol o arfer gorau o ran trefnu addysg ôl-orfodol. Bydd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido, rheoleiddio, a ffocws strategol cyffredinol addysg bellach ac addysg uwch, chweched dosbarth ysgolion, prentisiaethau a hyfforddiant, ac ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Mae’r Bil Drafft a’r cynigion i sefydlu’r Comisiwn ond yn ddechrau’r daith tuag at greu sector ôl-orfodol mwy effeithiol sy’n gweithio i bawb. Yn y misoedd nesaf, ochr yn ochr â’r ymgynghoriad ar y Bil Drafft, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gweledigaeth o’r hyn y bydd y sector yn ei gyflawni i Gymru, mewn partneriaeth ag ymarferwyr, dysgwyr ac arweinwyr sector.

Gyda’n gilydd, fe wnawn greu Cymru’n lle da i ddysgu, ymchwilio ac arloesi.

# Nodau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

## CYMRU LEWYRCHUS

System AHO sy'n cryfhau llesiant economaidd Cymru, yn annog mentergarwch a chydweithredu gyda busnesau ac yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a gweithwyr.

## CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

System AHO hygyrch ac effeithiol sy'n cefnogi dysgu, asesu a chynnydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

System sy'n darparu dysgu a datblygu gydol oes i bawb ac yn helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol.


## CYMRU GYDNERTH A CHYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Darparwyr AHO sy'n sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf ac yn gynaliadwy'n economaidd ac yn amgylcheddol.

## CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS A CHYMRU IACHACH

Darparwyr AHO sy'n gymunedau dysgu amrywiol a chydlynus ac yn hanfodol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

# Cyfrifoldebau arfaethedig y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil




## STRATEGAETH
Bydd y Comisiwn, mewn partneriaeth â darparwyr, dysgwyr ac ymarferwyr, yn llunio ac yn gweithredu strategaeth ar gyfer y sector AHO sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a amlinellir gan Weinidogion Cymru.

## CYLLID
Bydd y Comisiwn yn cynllunio ac yn dyrannu cyllid ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion, dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau ac ymchwil ac arloesi, yn unol â'i flaenoriaethau strategol.

## GORUCHWYLIAETH
Bydd y Comisiwn yn rheoleiddio ac yn mesur perfformiad darparwyr, yn diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau dysgwyr, myfyrwyr a phrentisiaid, ac yn sicrhau bod y sector AHO yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i Gymru.

## ANSAWDD
Mewn partneriaeth ag Estyn a chyrff eraill, bydd y Comisiwn yn sicrhau ac yn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yn y sector AHO.

## PRENTISIAETHAU
Bydd y Comisiwn yn datblygu ac yn cymeradwyo fframweithiau prentisiaethau mewn partneriaeth â chyflogwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr hyfforddiant.

## DATA A GWYBODAETH
Bydd y Comisiwn yn ganolbwynt ar gyfer data, ac yn darparu a chyhoeddi gwybodaeth er mwyn i fyfyrwyr, partneriaid, darparwyr a chyflogwyr allu deall yn well yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

# Ein Huchelgeisiau

Myfyrwyr, dysgwyr a phrentisiaid

**Ffocws cenedlaethol cydgysylltiedig** ar yr heriau sy'n wynebu myfyrwyr, dysgwyr a phrentisiaid ar draws y sector addysg ôl-orfodol cyfan.

**Mwy o gyfleoedd i gael llais yn y gwaith** o redeg eich prifysgol neu goleg.



**Rhagor o wybodaeth** ar gael ar yr opsiynau a gynigir, boed yn yr ysgol neu mewn addysg bellach, prentisiaethau neu addysg uwch.

**Mesurau diogelu gwell ar gyfer hawliau myfyrwyr**, gan gynnwys hawl newydd i gael cynllun cwynion ar gyfer addysg bellach.



# Ein Huchelgeisiau

Colegau addysg bellach ac ysgolion â chweched dosbarth

**Dull newydd o gyllido**, gydag un corff yn gyfrifol am gynllunio a chyllido addysg ôl-16 mewn ysgolion a cholegau.

**Gwell cydweithredu a phartneriaeth** rhwng darparwyr, gan weithio gyda'i gilydd er budd dysgwyr.



**Dull mwy cydlynol o asesu ansawdd**, gydag un fframwaith ansawdd a oruchwylir gan y Comisiwn a mwy o gydweithredu rhwng Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

**Goruchwyliaeth strategol fwy hirdymor gan fodloni** anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

# Ein Huchelgeisiau

Prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill

**Trefn reoleiddio gliriach a mwy ystyrlon ar gyfer darparwyr** sy'n gallu addasu i'r newid ym maint a siâp y sector ac anghenion newidiol Cymru.

**Dull mwy strategol** o ehangu mynediad a chyfle, gyda ffocws mwy hirdymor ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

**Cyfleoedd newydd i gydweithredu** â chyrff allanol mewn ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Comisiwn.

**Trefn reoleiddio fwy cyson** ar gyfer darparwyr cyrsiau israddedig amser llawn 'sefydledig' a darparwyr cyrsiau gradd, cyrsiau rhan-amser a chyrsiau dysgu o bell.



# Ein Huchelgeisiau

Cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant

**Diffiniad newydd, clir o brentisiaeth Gymreig**, gan sefydlu safon aur ar gyfer prentisiaethau Cymreig fel llwybrau o addysg i gyflogaeth sy'n cael eu gwerthfawrogi ac y mae galw mawr amdanynt.

**Cydweithio agos** rhwng y Comisiwn, darparwyr a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lywio'r prosesau cynllunio, cyllido a chynllunio strategol.

**Un corff** yn gyfrifol am sicrhau bod gan economi Cymru'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn i fusnesau a chymunedau allu ffynnu.

**Mwy o hyblygrwydd i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd** a chadw prentisiaethau sydd eisoes yn bodoli'n gyfredol er mwyn diwallu anghenion sgiliau sy'n newid.





978-1-80038-756-0: Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Llunio dyfodol addysg ôl-16 yng Nghymru